

Gofynwch am:

Ffôn:

E-Bost:

Ein Cyf:

Eich Cyf:

Dyddiad:

14 Medi 2021

Annwyl Rieni/Warcheidiaid

Ar ddydd Llun 13 Medi 2021, ysgrifennodd Dr Keith Reid, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd ar gyfer rhanbarth Bae Abertawe ataf i nodi bod y Tîm Rheoli Digwyddiadau Rhanbarthol (IMT) yn ystyried bod lefel y risg ym Mae Abertawe ar hyn o bryd yn cyfateb i'r Sgôr "Uchel" ar ein fframwaith ysgolion. Mae'r penderfyniad hwn wedi'i gyfleu i'n hysgolion ac mae mesurau ychwanegol bellach yn cael eu rhoi ar waith ar draws ein holl ysgolion.

Os oedd angen prawf erioed, mae hyn yn dangos nad yw Covid wedi diflannu yn ein rhanbarth nac yng Nghymru a bod lefelau haint bellach mor uchel â mis Rhagfyr diwethaf. Nid yw ysgolion eu hunain yn risg uchel, ond rydym yn gofyn iddynt gymryd camau i helpu i atal y firws rhag lledaenu yn y gymuned ehangach.

Ymhlith y mesurau rheoli y bydd ysgolion yn eu hystyried mae:

- osgoi cynnal digwyddiadau ar gyfer grwpiau mawr, fel gwasanaethau ysgol (grwpiau blwyddyn gyfan mewn Ysgol Uwchradd / ysgol gyfan yn yr Ysgol Gynradd)
- defnyddio systemau unffordd o fewn adeiladau'r ysgol
- cynlluniau eistedd cyson (gan gydnabod efallai na fydd hyn yn bosibl i ddysgwyr iau)
- defnyddio'r awyr agored lle y bo hynny'n bosibl
- arwyddion ar y llawr
- rhoi mesurau cadw pellter corfforol a chynlluniau eistedd ar waith mewn ystafelloedd dosbarth. Gall hyn gynnwys desgiau sy'n wynebu'r blaen yn dibynnu ar faint yr ystafell ac asesiad risg, gan gydnabod efallai na fydd hyn yn bosibl gyda phlant iau na dysgwyr y mae angen cymorth un i un arnynt.
- Cynnig profion llif unffordd ddwywaith yr wythnos i staff a dysgwyr uwchradd er mwyn helpu i nodi ac ynysu achosion asymptomatig cyn gynted â phosibl.
- Dylai dysgwyr oed uwchradd wisgo gorchuddion wyneb wrth symud o amgylch ardaloedd cymunedol dan do y tu allan i'r ystafell ddosbarth, fel coridorau, lle nad oes modd cadw pellter corfforol. Dylid parhau i wisgo gorchuddion wyneb ar gludiant i'r ysgol.
- Dylai staff ac ymwelwyr wisgo gorchuddion wyneb wrth symud o amgylch ardaloedd cymunedol dan do y tu allan i'r ystafell ddosbarth, fel coridorau, lle nad oes modd cadw pellter corfforol.

Gall unrhyw ysgolion, yn seiliedig ar eu hasesiad risg, roi mesurau lliniaru a rheoli ychwanegol ar waith fel y gwelant yn dda a gofynnwn ichi gefnogi ein penaethiaid a'u staff gyda hyn.

Cofiwch nad yw Prawf Llif Unffordd yn addas i unrhyw un sy'n dangos symptomau. Rhaid i unrhyw un sy'n dangos symptomau archebu prawf PCR a rhaid iddynt ynysu gartref nes bod canlyniad y prawf hwnnw'n hysbys.

Rydyn ni'n gofyn i bawb yn Abertawe barhau i olchi'ch dwylo'n rheolaidd, i osgoi lleoedd gyda llawer o bobl a chofio bod awyr iach yn bwysig felly os ydych chi allan yn cymdeithasu, cwrdd yn yr awyr agored os gallwch chi.

Mae brechu yn amddiffyniad hynod bwysig yn erbyn haint ac mae sesiynau brechu galw heibio yn cael eu cynnal yn rheolaidd ym Mae Abertawe i unrhyw un dros 16 oed.

Diolch i chi, fel bob amser, am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir



Helen Morgan-Rees
Cyfarwyddwr Addysg